# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 23 Medi 2025 |
| Pwnc: | Cais am arolwg cymunedol o Gyngor Cymuned Pentraeth. |
| Aelod(au) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn Jones |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion |
| Aelodau Lleol: | Y Cynghorydd Euryn Morris<br>Y Cynghorydd Margaret Roberts<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhellion**

1. Cytuno i gynnal Arolwg Cymunedol adran 31 o Gyngor Cymuned Pentraeth yn unol â'r cais a gyflwynwyd gan etholwyr.

2. Cynnal yr arolwg fel rhan o'r Arolwg Cymunedol adran 31 ar gyfer yr Ynys gyfan.

**Rhesymau**

1. Cyflwynodd etholwyr yn ward cymunedol Pentraeth ddeiseb i'r Cyngor Sir ar 28 Gorffennaf a oedd yn gofyn iddo gynnal arolwg cymunedol o Gyngor Cymuned Pentraeth.

2. Roedd y deisebwyr yn datgan eu bod wedi colli ffydd yn y cyngor cymuned yn sgil methiannau parhaus, penderfyniadau gwael a diffyg tryloywder ynglŷn â llywodraethiant a chynrychiolaeth leol honedig.

3. Gellir cynnal arolwg cymunedol adran 31 os derbynnir cais gan 30 neu fwy o etholwyr sy'n byw yn y gymuned honno. Mae'r cais gan gymuned Pentraeth yn bodloni'r gofyniad hwn ac felly mae'n gais dilys am arolwg cymunedol.

4. Roedd y ddeiseb hefyd yn gofyn i'r Cyngor Sir ohirio unrhyw benodiadau cyfethol neu etholiadol i Gyngor Cymuned Pentraeth hyd nes y bydd arolwg cymunedol wedi cael ei gynnal. Ysgrifennodd swyddogion at drefnwr y ddeiseb ar 8 Awst 2025 i egluro bod y gweithdrefnau cywir wedi cael eu dilyn o ran ethol a chyfethol i'r cyngor cymuned ac nad oedd gan y Cyngor Sir yr awdurdod cyfreithiol i ymyrryd yn y broses.

5. Bu dau gyfle yn ystod y tri mis diwethaf i alw etholiad i ethol i'r Cyngor Cymuned. Ar 23 Mai cyhoeddwyd hysbysiad sedd wag achlysurol i lenwi pedair sedd wag. Y dyddiad cau oedd 13 Mehefin. Ni dderbyniwyd yr un cais i alw etholiad ac felly aethpwyd ati i lenwi'r seddi gwag drwy'r broses cyfethol. Cyhoeddwyd hysbysiad sedd wag achlysurol arall ar 11 Gorffennaf i lenwi 3 sedd

wag ar y cyngor. Y dyddiad cau oedd 31 Gorffennaf. Unwaith eto, ni dderbyniwyd yr un cais i alw etholiad. Felly, yn yr un modd, bydd y seddi gwag yma'n cael eu prosesu drwy'r broses cyfethol yn ogystal.

6. Yn ddelfrydol, dylid cynnal arolwg cymunedol cyn arolwg etholiadol gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Yn ddiweddar cawsom wybod y bydd y Comisiwn yn cynnal arolwg etholiadol yn Ynys Môn rhwng Medi 2027 a Gorffennaf 2028. Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu cynnal arolwg cymunedol adran 31 ar gyfer yr ynys gyfan cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2027 a bydd yn dechrau ar y broses cyn diwedd 2025.

7. Felly, rydym yn argymell cynnal yr arolwg ym Mhentraeth fel rhan o'r arolwg ar gyfer yr ynys gyfan er mwyn defnyddio cyllid cyhoeddus ac adnoddau staffio yn fwy effeithlon. Dylid nodi hefyd y byddwn yn brin o adnoddau yn sgil yr angen i gynllunio a pharatoi ar gyfer etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r ddeiseb yn galw am arolwg cymunedol yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol i gael ei hystyried gan y Cyngor Sir. Fodd bynnag, am y rhesymau sydd wedi'u nodi uchod, rydym yn cynnig cynnal yr arolwg fel rhan o'r arolwg ar gyfer yr ynys gyfan. Bydd rhaid i'r arolwg cymunedol gael ei gwblhau cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2027 ac arolwg etholiadol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ym mis Medi 2027. Felly, rydym yn bwriadu cychwyn yr arolwg cymunedol cyn diwedd 2025.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Y Pwyllgor Gwaith fydd yn penderfynu p'un a ddylid cynnal arolwg cymunedol ai peidio gan nad oes gan y Cyngor unrhyw bŵer yn gysylltiedig â hyn ac nid oes unrhyw awdurdod wedi'i ddirprwyo i swyddogion.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

D/B

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?

Nid yw arolwg adran 31 yn ystyried ffiniau'r gymuned dan sylw. Bwriad yr arolwg yw ystyried y trefniadau ar gyfer cynrychiolaeth ar y cyngor cymuned. Fe all hyn olygu ystyried nifer yr aelodau ar y cyngor cymuned ac unrhyw drefniadau ar gyfer rhannu'r gymuned yn wardiau er mwyn ethol i'r cyngor cymuned. Drwy gynnal arolwg cyn yr etholiadau yn 2027 gellir sicrhau bod y trefniadau'n briodol ac yn cynrychioli cymunedau cymaint â phosib.

2. A fydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaethau i'r Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

D/B

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, sut?

Mae'r penderfyniad yn cydymffurfio â gofynion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

Fel rhan o'r arolwg bydd rhaid cynnal ymgynghoriad cychwynnol gyda chymunedau ac ymgynghoriad pellach ar y cynigion drafft.

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dim wedi'i nodi, ond byddwn yn gofyn am gyngor cyn yr ymgynghoriad cychwynnol.

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Heb adnabod unrhyw effaith.

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Heb adnabod unrhyw effaith.

## E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Fe wnaeth y Tîm Arweinyddiaeth ystyried yr adroddiad ar 2 Medi 2024 ac mae eu sylwadau wedi cael eu cynnwys. |
| 2. Swyddog Cyllid / 151 | Tîm Arweinyddiaeth (uchod) |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Tîm Arweinyddiaeth (uchod) |
| 4. AD | Ddim yn berthnasol |
| 5. Eiddo: | Ddim yn berthnasol |
| 6. TG | Ddim yn berthnasol |
| 7. Caffael | Ddim yn berthnasol |
| 8. Sgriwtini | Ddim yn berthnasol |
| 9. Aelodau Lleol | Rhannwyd copi o'r adroddiad â'r aelodau lleol ar 2 Medi 2025. |

## F - Atodiadau

## Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

Arweiniad gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gynnal arolygon cymunedol:
Community-Review-Guidance-new.pdf

Byddwn yn dilyn y broses a'r amserlen sydd wedi'i nodi yn canllawiau mor agos â phosib wrth gynnal yr arolwg.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is available in English.